

**Cyfarfod Cyngor Adnewyddu'r Economi
Nodiadau'r cyfarfod a gynhaliwyd am 10:30am ddydd Llun 24 Medi 2012
yn Ystafell Gynadledda 1 a 2, Swyddfeydd Llywodraeth Cymru, Parc
Cathays, Caerdydd**

Gweinidogion yn bresennol

Y Prif Weinidog

Y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth

Yr Arglwydd Green o Hurstpierpoint, Gweinidog Gwladol dros Fasnach a Buddsoddi

Y Gwir Anrhydeddus Arglwydd Heseltine, Cydymaith Anrhydedd

Ben Pledger, Ysgrifennydd Personol yr Arglwydd Heseltine

Alun Hughes, Tîm Adolygu Heseltine

Simon Clode, Ysgrifennydd Personol yr Arglwydd Green

Rhanddeiliaid yn bresennol

Paul Byard, Fforwm Cyflogwyr Peirianeg

Emma Watkins, Cydffederasiwn Diwydiant Prydain (CBI)

Leighton Jenkins, CBI

Huw Roberts, Sefydliad y Cyfarwyddwyr (IoD)

Robert Lloyd Griffiths, IoD

Graham Morgan, Siambr Fasnach De Cymru

David Russ, Siambr Cymru

Iestyn Davies, Ffederasiwn Busnesau Bach (FSB)

Richard Jenkins, Ffederasiwn y Meistr Adeiladwyr (FMB)

David Morgan, Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS)

Gareth Jenkins, Ffederasiwn Cyflogwyr Peirianeg

Nick Payne, Cymdeithas Cludiant Ffyrdd

David Leron, Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr (ICAEW)

Ben Cottam, Cymdeithas y Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig (ACCA)

Lowri Morgan, Cymdeithas y Cyfreithwyr

Derek Walker, Canolfan Cydweithredol Cymru

Amarjite Singh, Cyngres yr Undebau Llafur (TUC) Cymru

Martin Mansfield, TUC Cymru

Alex Bevan, TUC Cymru (Sylwedydd)

Nigel Keane, Uned Partneriaid Cymdeithasol Cymru (WSPU)

Mark Judd, WSPU (Sylwedydd)

Heather Eason, WSPU (Sylwedydd)

Swyddogion Llywodraeth Cymru yn bresennol:

James Price

Mike Hnyda (Eitem 3 ar yr Agenda)

Tracey Burke

Huw Owen (Eitem 4 ar yr Agenda)

Jeff Collins

Rob Williams (Eitem 4 ar yr Agenda)

Ymddiheuriadau

John Bennett, Cynghrair Mentrau Cymdeithasol Cymru

Andy Richards, Unite

Peter Hughes, Cyngor Benthycwyr Morgeisi (CLM)

Richard Price, Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi (HBF)
Julie Cook, TUC Cymru
Huw Thomas, Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr (NFU)
Phil Orford, Fforwm Busnesau Preifat
Richard Houdmont, Sefydliad Marchnata Siartredig (CIM)
Alex Jackman, Fforwm Busnesau Preifat
Ian Gallagher, Cymdeithas Trafnidiaeth Cludo Nwyddau

1. Cyflwyniadau a sylwadau agoriadol

- 1.1. Croesawodd y Prif Weinidog y rhai a oedd yn bresennol i'r cyfarfod hwn o Gyngor Adnewyddu'r Economi a chyflwynodd yr eitemau ar yr agenda.
- 1.2. Dywedodd y Prif Weinidog fod dwy eitem ar yr agenda.
 - 1.2.1 Eitem 3 ar yr Agenda. Trafodaeth ar 'gysylltu Cymru â'r economi fyd-eang' gyda'r Arglwydd Green, Gweinidog Gwladol dros Fasnach a Buddsoddi.
 - 1.2.2 Eitem 4 ar yr Agenda. Trafodaeth ar Adolygu Cystadleurwydd y DU gyda'r Arglwydd Heseltine.
- 1.3. Eglurodd y Prif Weinidog y byddai eitem 5 ar yr Agenda yn trafod trefniadau i fynd i'r afael â thri maes gwaith cyn cyfarfod nesaf y Cyngor, sef Caffael, Cynllunio a Dinas-Ranbarthau.
- 1.4. Eglurodd y Prif Weinidog fod papur i'w nodi ar Gylch Gorchwyl yr Adolygiad o Weithredu'r Cynllun Busnes.

2. Nodiadau a chymau gweithredu o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Mehefin 2012

- 2.1. Cyflwynwyd yr eitem hon ar yr agenda gan y Prif Weinidog. Roedd nodiadau'r cyfarfod blaenorol wedi'u cynnwys ym mhapurau'r cyfarfod. Ni chodwyd unrhyw bwyntiau o ran cywirdeb, a derbyniwyd nodiadau'r cyfarfod blaenorol. Yna cyfeiriodd at y tri phwynt gweithredu a gododd o'r cyfarfod diwethaf a dywedodd fod un cam gweithredu i ddiwygio nodiadau'r cyfarfod ar 29 Chwefror 2012 wedi'i gwblhau, bod un i ystyried thema agenda'r cyfarfod hwn wedi'i gwblhau ac yr eir i'r afael ag ef yn y cyfarfod hwn yn eitem 3 ar yr Agenda ac mai'r trydydd cam gweithredu oedd y dylai Aelodau roi gwybodaeth am dystiolaeth o sgiliau os oes modd.
- 2.2. Gofynnodd y Prif Weinidog a oedd unrhyw faterion i'w codi ynghylch y camau gweithredu ac ni chodwyd unrhyw faterion o'r fath.

3. Yr Arglwydd Green o Hurstpierpoint, Gweinidog Gwladol dros Fasnach a Buddsoddi

- 3.1 Croesawodd y Prif Weinidog yr Arglwydd Green i'r cyfarfod i drafod Masnach a Buddsoddi'r DU (UKTI) a'i gydberthynas â Chymru.
- 3.3 Nododd y Prif Weinidog fod yr Aelodau wedi cael papur byr ar 'Fewnfuddsoddi a Masnach a'r Gydberthynas rhwng Llywodraeth Cymru ac UKTI'.
- 3.4 Diolchodd yr Arglwydd Green i'r Prif Weinidog a chroesawodd y cyfle i siarad am ddyheadau UKTI ar gyfer mewnfuddsoddi yng Nghymru a gweithio'n agosach gyda Chymru i arddangos y rhanbarth ar ei orau.
- 3.5 Gwnaeth sylwadau ar yr heriau economaidd sy'n wynebu'r DU a'r ffaith bod dyledion y Llywodraeth a defnyddwyr yn golygu bod angen hyrwyddo mewnfuddsoddiad a masnach fel un o'r prif ffactorau sy'n ysgogi twf.
- 3.6 Cyfeiriodd yr Arglwydd Green at y targedau ar gyfer gweithgarwch allforio a gyhoeddwyd gan y Canghellor a sut y bydd cyflawni'r rhain yn her sylweddol i'r Llywodraeth, sefydliadau sy'n cynrychioli busnesau a busnesau eu hunain.
- 3.7 Nododd y dystiolaeth am fanteision allforio i'r economi ac allforwyr.
- 3.8 Trafododd yr Arglwydd Green ffigurau buddsoddiad uniongyrchol o dramor a nododd fod rhywfaint o bryder ynghylch ffigurau Cymru sy'n ymddangos fel pe baent wedi gostwng dros y blynyddoedd diwethaf, er bod y DU, yn gyffredinol, yn cael ei hystyried yn fwy agored i fuddsoddiad uniongyrchol o dramor na'r cyfandir ac America.
- 3.9 Nododd fod tystiolaeth gymhellol i ddangos bod mewnfuddsoddi yn dda i'r economi ac mai rôl UKTI yw gweithio gydag allforwyr busnes a Llywodraeth Cymru i dynnu sylw at gyfleoedd a hyrwyddo'r DU a Chymru o gymharu â'u cystadleuwyr. Mae Prif Swyddog Gweithredu UKTI yn mynd i'r afael â hyn ac mae'r tîm rheoli newydd wedi dechrau cynnal cyfarfodydd rheolaidd bob chwe mis gyda'u swyddogion cyfatebol yn y gweinyddiaethau datganoledig. Mae dau aelod o UKTI wedi'u secondio i Gymru a byddant yn ffurfio'r cysylltiadau angenrheidiol er mwyn cyfarfod.
- 3.10 Eglurodd yr Arglwydd Green y gwaith y mae'r tîm Rheoli Cydberthnasau Strategol yn ei wneud i reoli cydberthnasau ag allforwyr mawr a buddsoddwyr uniongyrchol o dramor ac ymygysylltu â Chwmnïau Angori, gan roi pwyslais cryf ar sgiliau a thrafnidiaeth. Cydnabuwyd bod Llywodraeth Cymru yn gweithredu mewn ffordd debyg.
- 3.11 Ailbwysleisiodd yr Arglwydd Green bwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth gyda'r gymuned fusnes a rhwydweithiau er mwyn cyflawni targedau a chadarnhaodd ymrwymiad UKTI i weithio gyda Llywodraeth Cymru.

- 3.12 Diolchodd y Prif Weinidog i'r Arglwydd Green am ei gyflwyniad a nododd mai'r prif broblemau o ran denu buddsoddwyr i Gymru oedd y ffaith ei bod yn anodd cael gafael ar gredyd; prisiau ynni uchel, yn enwedig i'r rhai sy'n defnyddio lefelau uchel o ynni, a chost teithio.
- 3.13 Nododd y gydberthynas well sy'n bodoli rhwng UKTI a Llywodraeth Cymru a'r cymorth a dderbyniwyd gan UKTI ar gyfer teithiau masnach.
- 3.14 Eglurodd y Prif Weinidog fod Llywodraeth Cymru yn awyddus i ddefnyddio adnoddau UKTI yn llawn er mwyn osgoi dyblygu gweithgarwch ac y byddai'n ceisio cryfhau adnoddau mewn rhannau o'r byd lle y gallwn ychwanegu gwerth er mwyn rhoi hwb i bresenoldeb Cymru mewn ffordd gost-effeithiol. Yna, estynnodd wahoddiad i Aelodau'r Cyngor wneud sylwadau.
- 3.15 Cyfeiriodd David Russ at y mudiad Siambrau yn fyd-eang a'r allforwyr gweithredol sy'n aelodau a gofynnodd a ystyriwyd y posibilrwydd o ddefnyddio'r rhwydwaith hwn i ddatblygu gweithgarwch.
- 3.16 Gofynnodd Graham Morgan am ragor o fanylion am y gwaith y mae UKTI yn ei wneud i roi gwybodaeth am gyfleoedd a sut mae'r gweithgarwch rheoli cydberthnasau yn gweithio ar gyfer cwmnïau mewnffuddsoddi yng Nghymru.
- 3.17 Croesawodd Emma Watkins y gydberthynas waith adeiladol rhwng Llywodraeth Cymru ac UKTI a chyfeiriodd at ddull Tîm Cymru o weithredu. Pwysleisiodd ei bod yn bwysig tynnu sylw at y rhwystrau i fewnffuddsoddi yng Nghymru ac adleisiodd y problemau y cyfeiriodd y Prif Weinidog atynt. Nododd syniadau strategol y CBI mewn perthynas â chanolbwyntio ar economïau sy'n datblygu a gofynnodd a oedd UKTI yn gwneud yr un peth. Gofynnodd hefyd pa gymorth roedd Llywodraeth Cymru ac UKTI yn ei roi i fusnesau canolig eu maint gan fod hwn hefyd yn faes â blaenoriaeth i'r CBI.
- 3.18 Nododd Paul Byard ganfyddiadau arolwg diweddar o gwmnïau sy'n allforio ar y rhwystrau i fuddsoddi. Croesawodd y Gronfa Twf Economaidd fel ffynhonnell o gymorth hanfodol i fusnesau yng Nghymru ac roedd yn gobeithio y byddai ail rownd o arian yn cael ei ddarparu.
- 3.19 Ymatebodd yr Arglwydd Green gan ddweud bod llawer o gyfleoedd da i weithio'n agosach gyda'r mudiad Siambrau ac y dylai UKTI feithrin cyswllt llawer cryfach â hwy. Awgrymodd y dylai UKTI chwilio am ffyrdd y gallai gryfhau cysylltiadau â Siambrau tramor a dysgu o enghreifftiau o weithgarwch da dramor.
- 3.20 Cyfeiriodd at Strategaeth gyhoeddedig UKTI a'r amcan o annog rhagor o weithgarwch mewn gwledydd sy'n tyfu'n gyflym, fel y dangoswyd gan wledydd fel yr Almaen, Ffrainc a'r Eidal.

- 3.21 Cydnabu'r Arglwydd Green y rhwystrau i fewnfuddsoddi yng Nghymru a phwysleisiodd yr angen i sicrhau llif o gyllid o bob ffynhonnell. Nododd y problemau'n ymwneud â phrisiau ynni a chytunodd i godi'r peth yn Llundain.
- 3.22 Gofynnodd Robert Lloyd Griffiths ym mha ffordd y gallai'r Uned Rheoli Cydberthnasau Strategol gynrychioli Cymru orau.
- 3.23 Ymatebodd yr Arglwydd Green drwy roi trosolwg o waith yr Uned a nododd y bydd yn bwysig, o safbwynt Cymru, i feithrin dealltwriaeth glir o'r cysylltiadau presennol a'r cysylltiadau posibl yn y dyfodol a chydberthynas y cwmni sy'n buddsoddi â Chymru. Dywedodd mai cyfrifoldeb UKTI yw ystyried pob safbwynt a chyflwyno'r cynnig gorau i gwmnïau sy'n mewnfuddsoddi.
- 3.24 Dywedodd Ben Cottam fod sesiynau bord gron wedi'u cynnal yn ddiweddar ar allforio a chynigiodd anfon papur ymlaen at yr Arglwydd Green. Nododd fod un sesiwn wedi tynnu sylw at ddryswch ynghylch ble mae rhwydweithiau yn uno ac y gellid gwneud rhywfaint o waith mapio. Awgrymodd y dylai Cymru fanteisio ar gryfder brand y DU yn dilyn llwyddiant y Gemau Olympaidd.
- 3.25 Gofynnodd Emyr Roberts i ba raddau yr ystyriwyd Addysg Bellach ac Addysg Uwch fel rhan o'r cynnig a nododd fod cynnwys yr elfen hon wedi gweithio'n dda fel rhan o'n gwaith gyda sectorau a Chwmnïau Angori.
- 3.26 Atgyfnerthodd Richard Jenkins sylwadau blaenorol ar broblemau ynni a thrafnidiaeth, yn benodol y problemau tagfeydd o gwmpas twneli a meysydd awyr. Nododd fod angen cymorth y DU ar Gymru i fuddsoddi mewn gwelliannau i seilwaith.
- 3.27 Ymatebodd yr Arglwydd Green gan ddweud fod sawl ffordd o ymdrin â brandio. Pwysleisiodd bwysigrwydd brandio a nododd y gallai fod yn werthfawr gefeillio dinasoedd gan gynllunio'r trefniadau ar sail cyfleoedd buddsoddi uniongyrchol o dramor. Cytunodd fod gwerth manteisio ar yr hwb a roddodd y Gemau Olympaidd i frand y DU ac, fel enghraifft, cyfeiriodd at y ffaith bod dirprwyaeth o fusnesau a gymerodd ran yn y Gemau wedi mynd ar daith i Rio.
- 3.28 Cyfeiriodd at gryfder cystadleuol gwirioneddol Addysg Uwch yn y DU a Chymru a dywedodd fod Addysg Uwch yn sector sy'n gwneud llawer o elw o allforio a'i fod yn bwysig o ran meithrin cydberthnasau hirdymor. Byddai'n sicrhau bod UKTI yn cynrychioli Cymru'n dda yn hyn o beth.
- 3.29 Cytunodd yr Arglwydd Green i fynd nôl â'r pryderon a fynegwyd am broblemau trafndiaeth Cymru gydag ef. Nododd y gallai rhai o'r newidiadau i'r ffordd rydym yn gwneud busnes erbyn hyn, fel y cynnydd mewn gwasanaethau ar-lein, fynd i'r afael â rhai o'r problemau trafndiaeth.

- 3.30 Gofynnodd Iestyn Davies i'r Arglwydd Green faint o fusnesau o Gymru a oedd wedi'u cynnwys yn y ddirprwyaeth i Rio. Gofynnodd beth oedd y ddealltwriaeth bresennol o faint a chwmpas potensial Cymru a sut y byddai'r potensial hwn yn cael ei fonitro dros yr hirdymor. Nododd fod rhywfaint o weithgarwch allforio yn digwydd o ganlyniad i adleoli, er enghraifft o ganlyniad i adleoli Bosch.
- 3.31 Nododd David Leron fod rhwydwaith cyfrifyddu byd-eang pwysig ar waith a allai helpu i feithrin cydberthnasau strategol. Dywedodd fod gan y rhan fwyaf o'r prif gwmnïau cyfrifyddu swyddfeydd yng Nghaerdydd ac y byddent yn fwy na pharod i helpu.
- 3.32 Nododd Nick Payne y bydd y cynnydd mewn gwerthiannau ar-lein yn arwain at fwy o draffig yn y rhan fwyaf o achosion.
- 3.33 Gofynnodd David Morgan a fydd UKTI yn cymryd rhan yn y broses o adolygu Morglawdd Hafren ac yn manteisio ar y cyfleoedd cysylltiedig.
- 3.34 Nododd yr Arglwydd Green y pryder y gallai cynnydd mewn gwerthiannau ar-lein arwain at fwy o broblemau traffig a dywedodd fod buddsoddi mewn trafndiaeth yn hollbwysig. Awgrymodd y gellid defnyddio buddsoddiad o dramor i dalu rhai o'r costau sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth ac ynni, er enghraifft drwy Bartneriaethau Cyhoeddus-Preifat ac y byddai angen dod o hyd i ateb hirdymor i'r problemau hyn. Nododd fod y strategaeth yn manylu fwyfwy ar fuddsoddi mewn seilwaith ac mai'r bwriad yw ariannu cyfran o'r gwaith hwn gan ddefnyddio buddsoddiad uniongyrchol a ddenwyd o dramor.
- 3.35 Nid oedd yn siŵr pa fusnesau o Gymru a oedd yn rhan o'r ddirprwyaeth i Rio a gofynnodd faint o aelodau o Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru a oedd yn allforio. Roedd yn ymwybodol o ffigurau'r DU. Cadarnhaodd fod UKTI yn ystyried ffyrdd o weithio gyda sefydliadau sy'n cynrychioli busnesau.
- 3.36 Eglurodd y Prif Weinidog fod Llywodraeth Cymru yn ystyried allforio yn ogystal â mewnfuddsoddi a thynnodd sylw at rywfaint o'r cymorth sydd ar gael i fusnesau, gan gynnwys grantiau i fusnesau fynd ar deithiau masnach. Nododd fod cyfleoedd gwych i fusnesau bach a chanolig yng Nghymru a bod help ar gael i gefnogi'r rhai sy'n gyndyn o allforio am nad oes ganddynt ddigon o wybodaeth am farchnadoedd na rheoliadau.
- 3.37 Ailbwysleisiodd y broblem o ran teithio a nododd er nad yw agosrwydd i leoliadau allweddol yn Lloegr yn broblem, gall costau teithiol personol i Gymru arwain at ganfyddiadau negyddol o Gymru.
- 3.38 Estynnodd y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth groeso i'r Arglwydd Green a chyfeiriodd at y gydberthynas dda rhwng UKTI a Llywodraeth Cymru. Drwy'r Teithiau Masnach nodwyd bod tua 500 o gwmnïau yng Nghymru yn allforio. Cyfeiriodd y Gweinidog at

bwysigrwydd swyddfa Llundain ac y bydd swyddfeydd tramor yn gwneud gwahaniaeth yn yr hirdymor. Dywedodd y Gweinidog hefyd fod rhai problemau â ffigurau UKTI ar gyfer Cymru oherwydd y dyddiadau cau ar gyfer cyflwyno data. Mae'r darlun cyflawn yn ymddangos yn fwy cadarnhaol i Gymru.

- 3.39 Cyflwynodd Mike Hnyda ffigurau allforio Cymru ar gyfer 2010/11 a 2011/12, gan nodi cynnydd o £1.618bn (13.66%) o flwyddyn i flwyddyn. Cynhwysodd y ffigurau ar gyfer dau chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol hon, gan nodi bod allforion Cymru wedi cynyddu 0.6% o gymharu â'r pedwar chwarter blaenorol hyd at, a chan gynnwys, Ch2 2012. Nododd fod y ffigurau'n ymwneud ag allforion ac eithrio gwasanaethau.
- 3.40 Cytunodd y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth i ddsbarthu nodyn ar ffigurau allforio Cymru.

<p>Cam Gweithredu: Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth i ddsbarthu nodyn ar ffigurau allforio Cymru.</p>
--

- 3.41 Nododd yr Arglwydd Green, drwy gyfarfod ag allforwyr, ei fod yn ymwybodol o'r heriau lu sy'n eu hwynebu a'r profiad anodd o allforio am y tro cyntaf, ond bod pob allforiwr yn ystyried ei fod yn weithgarwch gwerth chweil. Dywedodd mai rôl y Llywodraeth yw rhoi cymorth i wynebu'r heriau hyn ond ei bod yn her gyfunol sy'n galw ar y Llywodraeth, busnesau a grwpiau sy'n cynrychioli busnesau i gydweithio dros yr hirdymor.
- 3.42 Diolchodd y Prif Weinidog i'r Arglwydd Green a daeth â'r eitem ar yr Agenda i ben.
- 4. Y Gwir Anrhydeddus Arglwydd Heseltine CH (Adolygiad Annibynnol o Gystadleurwydd y DU)**
- 4.1 Croesawodd y Prif Weinidog yr Arglwydd Heseltine a dywedodd fod y cyfarfod hwn yn gyfle i'r Cyngor ymateb i adolygiad annibynnol yr Arglwydd Heseltine. Ailadroddodd y Prif Weinidog rai o'r prif bryderon ar gyfer economi Cymru: - gallu busnesau i gael credyd; effaith prisiau ynni ar ddenu a chadw busnesau; a chost teithio.
- 4.2 Croesawodd yr Arglwydd Heseltine y cyfle i annerch y Cyngor a dywedodd fod yr adroddiad yn seiliedig ar ei brofiad o weithio yn Lloegr ond ei fod yn awyddus i'r athroniaeth fod o fudd i'r gweinyddiaethau datganoledig.
- 4.3 Adolygodd sefyllfa bresennol yr economi, gan fyfyrto ar ragoriaeth ym maes addysg ac o fewn busnesau yn y DU, ond dywedodd fod rhaid newid perfformiad y busnes cyffredin os am wella strwythur a pherfformiad yr economi yn sylweddol. Yna heriodd y sefydliadau masnach ynghylch y graddau y maent yn cynrychioli cwmnïau cyffredin.

- 4.4 Yna dywedodd yr Arglwydd Heseltine fod angen datblygu cydberthnasau a chynrychiolaeth strategol a chyfeiriodd at yr Almaen fel enghraifft, sydd â 300 o bobl yn gweithio i'r Siambr Fasnach yn Beijing. Tanlinellwyd llwyddiant y dull hwn o weithredu i'r Almaen ar ôl i arlywydd Tsieina osod archebion yn ddiweddar am allforion o'r Almaen a oedd yn werth 10 waith yn fwy nag allforion Prydain.
- 4.5 Ychwanegodd fod angen i awdurdodau lleol ailganolbwyntio ar dwf economaidd sy'n benodol i leoedd arbennig. Cydnabu fod y gweinyddiaethau datganoledig yn mynd i'r afael â'r her o 'le' ond y gellid gwella o hyd.
- 4.6 Diolchodd y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth i'r Arglwydd Heseltine am ei sylwadau agoriadol a dywedodd fod cynnydd yn cael ei wneud. Bydd y Dinas-Ranbarthau yn rhoi mwy o rym i'r Dinasoedd ac mae cryfder ein cydberthnasau ag UKTI yn gwella ein gallu i gystadlu.
- 4.7 Gofynnodd Ben Cottam a oedd model yn bodoli ar hyn o bryd i ymgysylltu â siambrau masnach a fyddai'n gweithio yng Nghymru.
- 4.8 Dywedodd yr Arglwydd Heseltine fod ei adolygiad wedi edrych ar fodolau eraill ac y byddai'r adroddiad yn ymdrin â hyn.
- 4.9 Cytunodd Graham Morgan fod angen i'r siambrau masnach ennyn mäs critigol, cydweithio mwy a nodi cyfleoedd a gollwyd. Nododd fod sefydliadau croes yn bodoli ar hyn o bryd ac y byddai'n fuddiol eu dwyn ynghyd o dan un sefydliad mantell.
- 4.10 Dywedodd Richard Jenkins ei bod yn orfodol bod yn aelod o siambr masnach mewn rhai gwledydd eraill ac felly, wrth ystyried effeithiolrwydd y sefydliadau hyn, bod angen gwneud cymariaethau teg.
- 4.11 Nododd Iestyn Davies fod amrywiaeth eang o sefydliadau busnes yn cydweithio'n dda iawn â'i gilydd ar hyn o bryd a bod FSB yn ymgyrchu dros gymdeithas busnesau bach ar lefel y DU. Ychwanegodd fod angen datrys y diffyg o ran seilwaith drwy newid fformiwla Barnett a rhoi ymreolaeth ariannol ac ymreolaeth o ran benthyca i Gymru. Cyfeiriodd hefyd at nifer yr Awdurdodau Lleol a'r heriau ar gyfer Dinas-Ranbarthau.
- 4.12 Ymatebodd yr Arglwydd Heseltine gan ddweud y byddai cyflwyno trefniadau aelodaeth orfodol o sefydliadau Siambr Masnach yn amhoblogaidd iawn. Nododd fod y trefniadau aelodaeth wirfoddol yn y DU yn atal aelodau rhag rhoi her gadarn i sefydliadau masnach ac felly'n gwanhau eu heffaith. Dywedodd y byddai galluogi sefydliadau o'r fath i ddarparu gwasanaethau a gyflenwir ar hyn o bryd gan rannau o'r sector cyhoeddus yn eu gwneud yn fwy defnyddiol ac yn darparu ffynhonnell o arian iddynt.

- 4.13 Yna dywedodd fod yr economi yn dibynnu ar gwmnïau angori cryf sy'n cael effaith eang ar yr economi drwy'r gadwyn gyflenwi.
- 4.14 O ran buddsoddi mewn seilwaith, heriodd yr Arglwydd Heseltine y dull canoledig o weithio o gymharu â gweithio mewn ffordd sy'n seiliedig ar le. Cyfeiriodd at enghreifftiau amrywiol o ddulliau gweithredu sy'n seiliedig ar le a chreu partneriaethau â sefydliadau lleol.
- 4.15 Aeth yr Arglwydd Heseltine ymlaen i gefnogi'r Dinas-Ranbarthau ac annog Cymru i'w rhoi wrth galon ei phenderfyniadau.
- 4.16 Diolchodd y Prif Weinidog i'r Arglwydd Heseltine a daeth â'r eitem hon ar yr agenda i ben.

5. Trefniadau ar gyfer trafodaethau polisi yn y dyfodol

- 5.1 Esboniodd y Prif Weinidog y bu'n rhaid hepgor tri phwnc, sef Cynllunio, Caffael a Dinas-Ranbarthau, o'r cyfarfod heddiw. Cynigiwyd y byddai swyddogion yn trefnu cyfarfod penodol o'r Cyngor er mwyn sicrhau yr eir i'r afael â'r eitemau hyn cyn y cyfarfod nesaf. Gofynnodd a oedd yr Aelodau yn fodlon ar hynny.
- 5.2 Roedd yr Aelodau yn fodlon ar hynny.

Cam Gweithredu: Trefnu cyfarfod o Gyngor Adnewyddu'r Economi i ymdrin â'r canlynol:

- **Adroddiad y Grŵp Cyngori Annibynnol ar Gynllunio;**
- **Adroddiad McClelland ar Gaffael;**
- **Dinas-ranbarthau.**

6. Unrhyw Fater Arall

- 6.1 Gofynnodd y Prif Weinidog a oedd unrhyw fater arall.
- 6.2 Dywedodd y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth y byddai ffigurau allforio Cymru yn cael eu dosbarthu i'r Cyngor ar ôl y cyfarfod.
- 6.3 Ni chodwyd unrhyw faterion eraill, felly diolchodd y Prif Weinidog i bawb am ddod ac am gyfrannu ac atgoffodd yr aelodau y byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 28 Ionawr 2013 ym Mharc Cathays, Caerdydd. Yna daeth y Prif Weinidog â'r cyfarfod i ben.